

Cofnodion cyfarfod misol rhithwir Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mawrth 17deg 2021 am 7.30 o'r gloch.

Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 17th March 17th 2021 7.30pm

Presennol/Present - Cadeirydd/*Chairperson* Barbara Williams, Mark Griffiths, Myrddin Roberts, Maldwyn Williams, Martin Hennessey a Geraint Parry (Clerc/*Clerk*)
Cynghorwyr Sir/*County Councillors* – Alun Roberts a Carwyn Jones

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - dim ymddiheuriadau / *no apologies*
2. **Cofnodion / Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17deg o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eiliwyd gan Cyng. M Hennessey / *Minutes of the previous meeting held on 17th February were accepted as accurate by Clr. M Williams, seconded by Clr M Hennessey.*
3. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**
 - 3.1 Cyng. Hanna Baguley yn datgan diddordeb sydd yn rhagfarnol ar eitem 8 oherwydd ei bod yn aelod o'r grŵp lliwio Cwlwm Seiriol / *Clr. Hanna Baguley declared an interest that is prejudicial on item 8 because she is a member of the Cwlwm Seiriol steering group.*
 - 3.2 Datganodd Cyng. M Roberts fuddiant sy'n rhagfarnol ar eitem 8.4 oherwydd ei fod yn byw drws nesaf i'r ymgeisydd / *Clr. M Roberts declared an interest that is prejudicial on item 8.4 because he lives next door to the applicant.*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Llefydd pasio ar y ffordd ganol o Landdona i Langoed - Dywedodd Cyng. Alun Roberts fod Priffyrdd wedi dweud nad oedd tir caled o dan y manau pasio, felly ni all sgrapio'r wyneb i ganiatáu i draffig ddefnyddio yn dilyn y tywydd gwlyb. Fodd bynnag, mae'r ffordd hon wedi'i marcio ar gyfer gwaith cynnal a chadw eleni a bydd y manau pasio yn cael sylw. Eglurodd Cyng. M Roberts fod gan y lleoedd pasio hyn llawr caled o dan yr arwynebau. / *Passing places on the middle road from Llanddona to Llangoed - Clr Alun Roberts reported that Highways had stated there was no hard ground underneath the passing places, so cannot scrape away the surface to allow traffic to use following the wet weather. However this road has been marked up for maintenance this year and the passing places will be getting attention. Clr M Roberts explained that these passing places have hard standing underneath the surfaces.*
 - 4.2 Cwlfertau wedi'u blocio ger Penhwnllys Bach a ger Comin y Rhos - dywedodd Cyng. Alun Roberts fod y cwlfertau ar y rhestr o waith i'w wneud / *Culverts by Penhwnllys Bach and by Comin y Rhos - Clr Alun Roberts reported that the culverts are on the list of work to do.*
 - 4.3 Maes Chwarae Plant - Clerc yn aros am ddyfynbris i gymryd lle'r matio rwyber. Hefyd mae'r Clerc wedi dilyn gyda pheintio'r offer chwarae / *Children's Play Area - Clerk is awaiting a quotation to replace the rubber matting. Also the Clerk has followed with the painting of the play equipment.*
 - 4.4 Eglurodd y Clerc y cefndir hanesyddol cyn y datblygiad yn Cherry Tree Cottage ac na dderbyniwyd unrhyw wayleave / *The Clerk explained the historical background prior to the development at Cherry Tree Cottage and that no wayleave was received.*
 - 4.5 Cynnal a chadw mynwentydd - esboniodd y Clerc ei fod wedi ymgynghori â'n contractwr sydd wedi cytuno i ddyfynnu am gontract 3 blynedd ar gyfer cynnal a chadw'r mynwentydd. Mae wedi gofyn a allai ychwanegu dau doriad ychwanegol yn y fynwent newydd oherwydd natur y twf. Cytunwyd yn unfrydol ar y dyfyniad ynghyd â'r toriadau ychwanegol / *Maintenance of cemeteries - The Clerk explained that he has consulted with the contractor who has agreed to quote for a 3 year contract for maintaining the cemeteries. He has requested if he could add additional two cuts at the new cemetery*

due to the nature of the growth. The quotation was unanimously agreed together with the additional cuts.

5. Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors Cynghorydd / Councillor Alun Roberts

- 5.1 Covid - mae ystadegau'n uchel iawn yn enwedig yn ardal Caergybi / *Covid - statistics are very high especially in the Holyhead area.*
- 5.2 Adroddwyd ei fod wedi cael cyfarfod gyda dau gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tân lle'r oeddent yn esbonio pob agwedd o'r gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r tân diweddar ym Miwmares. Roedd yn ffodus iawn na cholodd neb eu bywyd yn y digwyddiad hwn. Esboniodd ei fod wedi bod yn cefnogi'r teulu yr effeithiwyd arnynt / *Reported that he had a meeting with two representatives from the Fire Service where they explained all aspects of the service especially in relation to the recent fire in Beaumaris. It was very fortunate that nobody lost their lives in this incident. He explained that he has been supporting the family affected.*

6. Lôn Hafoty / Hafoty Road

Esboniodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle ac wedi siarad â'r tîrfeddianwyr. Bwriedir dechrau ar y gwaith yn ystod misoedd yr haf i ddatrys y ffordd rhag llifogydd / *The Clerk explained that the County Council have visited the site and have spoken to the landowners. Work is planned to start during the summer months to resolve the road from flooding.*

7. Traeth / Beach

- 7.1 Adroddodd Cyng. C Jones o'r ymweliad safle diweddar (o fewn rheolau Covid) ar y 15/03 gyda Cyng. R Hughes, Cyng. A Roberts a Cyng. M Roberts. Mae llawer o wahanol agweddau yma, y datblygiad newydd ym Mhen Trans a'r llythyr gan yr adran Gynllunio yn esbonio cymeradwyaeth y cynllunio. Mae'r mater gyda ddefnyddio'r tir gyferbyn fel man caled a chael gwared ar pridd uchaf ac ati.

Yn dilyn sgwrs gyda llefarydd ar ran y datblygwr, esboniwyd mai mesur dros dro yw hwn, ac y bydd y pridd a'r cerrig yn cael eu rhoi yn ôl. Yn dilyn canllawiau gan y Swyddog Gorfodi, gellir caniatáu defnydd dros dro o dir fel hyn. Nid oedd y tir hwn gyferbyn â Phen Trans yn ardal y mae'r cyhoedd wedi arfer mynd i mewn i'r traeth. Gyferbyn â'r man menyn mae tua 70 metr o wrychoedd tail hir. Mae nifer o gwynion wedi'u cyflwyno i CNC ynglŷn â hyn, ac maent wedi gofyn i'r gwrych hwn gael ei symud erbyn y Pasg.

Drws nesaf i'r menage mae prif faes arall y mae'r cyhoedd wedi arfer a defnyddio i barcio dros y blynyddoedd. Mae llawer o safbwyntiau cryf o gylch hyn, parthed y parcio gyferbyn â'r cartrefi gwyliau ac mae un arall yn atal pobl rhag cael mynediad i'r traeth o ochr hanesyddol. Mae'r mater yn ddryslyd iawn, i bwy sy'n berchen ar beth a phwy sy'n gyfrifol?

Mae clogfeini mawr wedi'u gosod i lawr gan orfodi pobl i barcio yn y maes parcio.

Pwysleisiodd Cyng. A Roberts y gallai'r camau hyn arwain at greu teimladau drwg ymysg y gymuned leol.

Cyfeiriodd Cyng. M Williams at gyfarfod ymholiadau cyhoeddus a gynhaliwyd tua 30 mlynedd yn ôl, ni wnaed unrhyw benderfyniad bryd hynny.

Dywedwyd ymhellach fod y cerrig hyn bellach yn rhwystro mynediad i'r bobl anabl ac yn niweidio agwedd bioamrywiaeth yr ardal yn ddifrifol.

Rai blynyddoedd yn ôl roedd y Cyngor Sir wedi cytuno i greu ardal barcio o Storws i Pen Trans ond roedd gwrthwynebiad gan bobl oedd yn byw gerllaw i'r cynllun. Mae Aelodau'n pryderu am y datblygiadau cynllunio diweddaraf sy'n newid wyneb y maes hwn ac nad oes ganddynt bŵer i'w atal.

Cytunodd y mwyafrif i drefnu cyfarfod arbennig gyda'r tîrfeddianwyr lleol ac aelodau priodol o'r Cyngor Sir ar 22/03/21.

Clr. C Jones reported from the recent site visit (within the Covid rules) on the 15/03 with Clr. R Hughes, Clr. A Roberts and Clr. M Roberts. There are many different aspects here,

the new development at Pen Trans and the letter from the Planning department explaining the approval of the planning. There is the issue of using the land opposite as a hard standing area and the removal of the top soil etc.

Following a conversation with a spokesman for the developer, it was explained that this is a temporary measure, and that the soil and stones will be put back. Following guidance from the Enforcement Officer, a temporary use of land can be permitted. This land opposite Pen Trans was not an area that the public have used to enter the beach. Opposite the menage area there is approximately a 70 meters long manure hedge. A number of complaints have been submitted to NRW regarding this, and they have requested that this hedge is removed by Easter.

Next door to the menage is another main area that the public have used to park over the years. There are many strong opinions here, re the parking opposite the holiday homes and another is preventing people from accessing the beach from a historical point. The matter is very confusing, to who own what and who is responsible? Large boulders have been put down forcing people to park at the car park. Clr. A Roberts emphasised that these actions could result in creating bad feelings amongst the local community.

Clr. M Williams referred to the public enquiry meeting held about 30 years ago, no resolution was made then.

It was further stated, that these stones now block access for disabled people and seriously damages the biodiversity aspect of the area.

Some years ago the County Council had agreed to create a parking area from Storws to Pentrans but there was opposition from people living nearby to the plan. Members are concerned about the latest planning developments that is changing the face of this area and that they have no power to stop it.

It was agreed by majority to arrange a special meeting with the local landowners and appropriate members from the County Council on the 22/03/21.

8. Cwllwm Seiriol – Menter Môn

- 8.1 **Esboniodd y Clerc**, yn dilyn yr ymweliad safle ar 28/02, fod ein cynllun yn nodi meysydd gwaith ar dir comin wedi'i gyflwyno i Menter Môn.
Darllenodd y Clerc yr ateb gan Menter Môn gan ddweud, gan fod y tymor adar yn agosáu, nad yw'n amser da i ddechrau clirio coed a phrysgwydd. Cynigiwyd bod y gwaith hwn yn digwydd rhwng mis Awst a mis Mawrth. Dywedodd aelod ei fod yn siomedig na ellir dechrau'r gwaith yn gynt. Esboniodd y Clerc fod manylion contractwr lleol wedi'u trosglwyddo i Menter Môn.
The Clerk explained that following the site visit on the 28/02, our plan identifying areas of work on common land was submitted to Menter Môn.
The Clerk read out the reply from Menter Môn stating that as the bird season is approaching and it is not a good time to start tree and scrub clearing. It was proposed that this work takes place between August and March. A member stated they were disappointed that the work could not be started sooner. The Clerk explained that the details of a local contractor has been passed on to Menter Môn.
- 7.2 **Cynllun Pori** - Ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch pa gynllun pori oedd fwyaf addas
Grazing Plan - *No decision was made as to which grazing plan was best suited*
- 7.3 **Panelli** - Esboniodd y Clerc fod angen diagram manwl pellach ar yr Adran gynllunio. Gwybodaeth i'w chyflenwi gan Menter Môn.
Panels - *The Clerk explained that the planning Department required further detailed diagram. Information to be supplied by Menter Môn.*
- 7.4 **Cerflun Helyg** - mae'r Cerflun wedi cyrraedd
Willow Sculpture - *the Sculpture has arrived*
- 7.5 **Taflen Wybodaeth y Warchodfa Natur Leol** - Cyngor Cymuned i benderfynu a oes angen ei diweddarau / **Local Nature Reserve Information sheet** - *Community Council to decide if it needs to be updated*

8 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 8.3 HHP/2021/52 – Llais Aderyn, Wern y Wylan - cais llawn ar gyfer codi ystafell gardd – dim gwrthwynebiad / *Full application for the erection of a garden room – no objection.*
- 8.4 LUE/2021/5 - Penhwnllys Plas - cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o'r ysgubor bresennol fel rhan o'r annedd presennol - Yn anffodus ni all y Cyngor Cymuned ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ar y mater hwn / *Application for a lawful development certificate for the existing use of the existing barn as part of the existing dwellinghouse - Unfortunately the Community Council is unable to provide any further information on this matter.*

Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions

- 8.5 DIS/2021/2 - Mynydd Crafoed - cais i ryddhau amod (08) (Cynllun rheoli traffic adeiladu) o ganiatâd cynllunio FPL/2020/211 ar dir – amod (08) wedi ei rhyddhau / *Application to discharge condition (08) (Construction traffic management plan) of planning permission FPL/2020/211 on land – condition (08) discharged*
- Esboniodd Cyng. A Roberts na chafodd y Cyngor Cymuned hysbysiad o'r cais. Yn y cyfamser, mae'r adran Gynllunio wedi gwneud ei phenderfyniad ar 16/02/21 cyn i'r Cyngor Cymuned wneud ei sylw ei hun.
- Dywedodd ymhellach ei fod wedi codi hyn gyda'r adran. Penderfynwyd codi'r mater hwn gyda'r Cyngor Sir / *Clr. A Roberts explained that the Community Council did not receive a notification of this application. In the meantime the Planning department has made their decision on the 16/02/21 prior to the Community Council making their own observation.*
- He further stated that he has raised this with the department. It was decided to raise this matter with the County Council.*

9 Cyfrifon / Accounts

- 9.1 Bancio ar-lein - Esboniodd y Clerc ein bod wedi derbyn yr offer angenrheidiol gan y banc ac y gallwn bellach wneud taliadau ar-lein / *The Clerk explained that we have received the necessary equipment from the bank and can now make on-line payments.*

Anfonebau i'w talu / Invoices for payment:-

- 9.2 Cyflog y Clerc / *Clerk's salary - £531.71*
- 9.3 HMRC - £30.00
- 9.4 Tal Blynyddol i Gynghorwr / *Annual Councillor Payment - £120.00*
- 9.5 Un Llais Cymru - hyfforddiant / *One Voice Wales – training - £30.00*

Derbyniadau / Receipts

- 9.6 Fynwent y Plwyf / *Community Cemetery - £660.00*

10 Gohebiaeth / Correspondence

- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru/ *Independent Remuneration Panel for Wales - Annual Report*
- Ail Gartrefi Polisi Datblygu Polisiâu Newydd / *Second Homes, Developing New Policies*
- Ffi flynyddol ar gyfer casglu bin Gwyrdd / *Annual Fee for green garden waste collection*
- Hyfforddiant Un llais mis - Mawrth / *One Voice Wales training – March*
- Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon / *Litter & fly tipping prevention*
- Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb / *Hate Crime Awareness*
- Grantiau bach ar gyfer grwpiau cymunedol / *Small grants for community groups*
- Consyrn traeth Llanddona x 2 / *Llanddona beach concerns x 2*

11 UFA / AOB

- 11.1 Dywedodd Cyng. Alun Roberts y bydd arwydd Eglwys Llanfihangel a ddifrodwyd yn cael sylw / *Clr Alun Roberts stated that the damaged sign Llanfihangel Church will be getting attention.*
- 11.2 Esboniodd y Clerc ei fod wedi creu e-bost swyddogol ar ran y Cyngor Cymuned - ac y bydd yn creu "sut i arwain" i Gynghorwyr / *The Clerk explained that he has created an*

official e-mail on behalf of the Community Council and will create a "how to guide" for Councillors

- 11.3 Esboniodd y Clerc Adran 85(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer y Rheol Anghymhwyso ar gyfer peidio â mynychu cyfarfodydd. Penderfynwyd cymeradwyo absenoldeb Cynghorydd M Williams o gyfarfodydd Ebrill i Ragfyr / *The Clerk explained the S85(1) of the Local Government Act 1972 for the Disqualification Rule for non-attendance of meetings. It was resolved to approve Councillor M Williams absence from the meetings of April to December.*

12 Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:40 Cyfarfod nesaf ar 21/04/21 am 19:30 /*There was no further business to discuss. Meeting ended 21:40pm. Next meeting to be held on 21/04/21 at 19:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad